

3. Gweithio gyda pherchnogion tir cyfagos i hwyluso mynediad integredig, i sefydlu parhad cynefinoedd ac i ffurfio partneriaethau ar gyfer ailgyflwyno rhywogaethau.

3.1. Yn ardal Coetir Anian, byddwn yn ymgysylltu ag Adnoddau Naturiol Cymru a Llywodraeth Cymru i chwilio am fwy o ardaloedd o gynefinoedd naturiol mewn coetiroedd cyhoeddus cyfagos, i ffurfio partneriaethau ar gyfer gwaith rhywogaethau, ac i sefydlu llwybrau ar gyfer cerddwyr a beicwyr.

Statws Cyfredol:

Rydym wedi ymateb i ymgynghoriad 2019 ar Gwm Einion a Chynllun Adnoddau Coedwig Rheidol Uchaf ac wedi cyflawni mân newidiadau. Mae cornel o eiddo CNC wrth ymyl Bwlch Corog eisoes wedi'i drosi'n rhostir a choetir brodorol. Disgwylir adfer ardal ehangach o gynefinoedd ymhellach, yn dilyn cynaeafu ardal o byrwydd Sitka.

Cynlluniau:

Parhau i ymgysylltu â CNC i geisio adfer cynefinoedd mwy a hynny'n gynt.

Byddwn yn ymgynghori â CNC ar gynigion adfer rhywogaethau ac yn sefydlu partneriaethau lle bo angen.

Rydym yn cynnig sefydlu llwybr i ffwrdd o ffyrdd coedwig rhwng ardal arfordirol / aber a Bwlch Corog trwy goedwigaeth CNC, gan gysylltu â Llwybr Arfordirol Cymru ar y ffordd, Taith y Tywysog Llywelyn ar ein safle, a Ffordd Glyndŵr ar ôl Bwlch Corog.

3.2. Byddwn yn archwilio cyfleoedd i weithio mewn partneriaeth â pherchnogion tir eraill yn yr ardal ehangach.

Statws Cyfredol:

Cefn Coch: Gwartheg o'r fferm gyfagos yn pori yn yr haf ym Mwlch Corog.

Dynyn: Mae trafodaethau wedi cadarnhau'r nodau a rennir; ceffylau Dynyn yw'r prif gyfyngiad ar bori ar draws y 2 eiddo. Cyflwyniad y Rugiar Ddu yw'r brif thema gyfredol.

Dolgoch: Coed Cadw yn cyfathrebu â'r perchennog a chytunwyd ar rywfaint o gynnydd yn y gorchudd coed brodorol.

Caerhedyn: Coed Cadw yn cyfathrebu â'r perchennogion. Trafodaethau ar blannu blancedi o goetir brodorol neu adfywio naturiol a chyflwyno pori gan wartheg Ucheldirol mewn partneriaeth â'r RSPB a Jeremy Cartwright.

RSPB: Diddordeb gweithio gyda ni lle mae cyfleoedd yn codi. Cysylltiad tirwedd trwy goedwigaeth planhigfa Dynyn neu Maescyllyn / Brwyn.



Cynllun Strategol 2021 - 2030

Cynlluniau:

Parhau i sefydlu cysylltiadau a thrafod potensial ar gyfer prosiectau.

Bydd y prosiect yn parhau i hyrwyddo pontydd gwyrdd i'r llywodraeth. Bydd pontydd gwyrdd yn nodwedd bwysig wrth ddarparu cysylltedd cynefinoedd ar gyfer bywyd gwylt a llwybrau i bobl ar draws yr A487 a'r rheilffordd yn Nyffryn Dyfi. Byddai'r rhain yn cysylltu'r aber a gwarchodfeydd Cors Dyfi ac Ynys Hir â chymoedd y llednentydd ac ucheldiroedd Pumlumon.